

CORE-INFO:

Esgeuluso neu gam-drin emosiynol i blant 13-18 mlwydd oed

NSPCC
CYMRU | WALES

CORE INFO
Cardiff Child Protection Systematic Reviews

Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn crynhoi'r llenyddiaeth wyddonol sy'n disgrifio'r hyn y mae pobl yn eu harddegau rhwng 13 a 18 oed sy'n cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin yn emosiynol yn ei ddweud wrthym amdanynt eu hunain.

Mae'n canolbwyntio ar sut mae'r bobl ifanc hyn yn gweld eu hunain a'u profiadau. Nid oedd yr adolygiad o'r llenyddiaeth yn ystyried canfyddiadau pobl eraill gan mai dim ond nodweddion hunan-hysbysedig a ystyriwyd. Ar gyfer yr holl bobl ifanc yn eu harddegau yn yr astudiaethau a adolygwyd, cadarnhaodd yr asiantaethau statudol eu bod yn cael eu hesgeuluso a/neu eu cam-drin yn emosiynol; roedd llawer ohonynt mewn gofal y tu allan i'w cartref adeg yr astudiaethau. Ar gyfer llawer o'r bobl hyn, er eu bod yn cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin yn emosiynol adeg yr astudiaethau, gallai hyn fod wedi bod yn digwydd drwy gydol eu blynyddoedd iau hefyd. Mae effaith yr achosion cynharach hyn o esgeuluso a cham-drin y tu hwnt i gwmpas y crynodeb hwn.

Bydd y daflen hon o ddiddordeb arbennig i: ymarferwyr iechyd plant; staff ym maes addysg, yn cynnwys athrawon a swyddogion lles addysg; gwasanaethau gofal cymdeithasol plant; yr heddlu a gwasanaethau troseddwyr ifanc; gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd.

Y rheswm dros wneud y gwaith hwn

Mae cam-drin emosiynol yn fath hynod o niweidiol o gam-drin, a gall ddigwydd ar ei ben ei hun, neu ar yr un pryd â mathau eraill o gam-drin neu esgeuluso. Caiff esgeuluso emosiynol ei adnabod hefyd ac mae llawer o astudiaethau ymchwil yn cyfuno cam-drin emosiynol ag esgeuluso emosiynol (o dan y term 'camdriniaeth seicolegol'). Mae'r daflen hon yn mynd i'r afael â phlant sy'n profi unrhyw fath o esgeuluso (corfforol, emosiynol, addysgol, meddygol ac ati) a/neu gam-drin emosiynol.[1]

Yn y daflen hon, ein nod yw archwilio'r berthynas rhwng pobl yn eu harddegau sy'n cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin yn emosiynol, a'r tebygolrwydd y gall eu camdriniaeth arwain at broblemau fel syniadau hunanladdol, iselder, erledigaeth, trais ar ddêt a thramgwydd. Gall pobl eraill ddehongli'r ymddygiad a arddangosir gan bobl yn eu harddegau sy'n cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin yn emosiynol fel ffordd o fyw ddewisol neu fel ymddygiad negyddol. Gall dealltwriaeth well o esgeuluso a cham-drin emosiynol yn yr arddegau alluogi'r bobl hyn i gael gafael ar help priodol mewn da bryd.

Paratowyd y daflen hon yn dilyn adolygiad cyflym systematig o'r astudiaethau a gyhoeddwyd yn fyd-eang rhwng 1990 a 2014. Cyflwynwn adroddiad ar emosiynau, lles cyffredinol a ffordd o fyw pobl yn eu harddegau.

---

[1] Mae manylion yr hyn sy'n gyfystyr ag esgeuluso neu gam-drin emosiynol wedi'u nodi yn y rhestr termau ar ddiwedd y daflen hon.

Prif ganfyddiadau

Erledigaeth

Mewn un astudiaeth, dywedodd y merched a oedd yn cael eu hesgeuluso eu bod wedi dioddef ymosodiad corfforol, ond ni ddywedodd y bechgyn hyn. Yn ôl astudiaeth arall, gall pobl yn eu harddegau sy'n cael eu hesgeuluso ddioddef trais ar ddêt.

Mae bechgyn neu ferched sy'n cael eu cam-drin yn emosiynol hefyd wedi nodi eu bod wedi dioddef trais ar ddêt.

Ymddwyn yn dreisgar neu'n dramgwyddol

Mae un astudiaeth wedi dangos bod bechgyn sy'n cael eu hesgeuluso'n gorfforol yn ddim mwy tebygol o fod yn dreisgar ar ddêt na phobl eraill yn eu harddegau. Fodd bynnag, dangosodd un astudiaeth y gall bechgyn sy'n cael eu cam-drin yn emosiynol fod yn dreisgar ar ddêt. Yn ôl un astudiaeth, gall bechgyn hŷn sy'n cael eu hesgeuluso ymddwyn yn dramgwyddol.

Disgwyliadau'r dyfodol

Nid oedd gan y bobl yn eu harddegau a oedd yn cael eu hesgeuluso'n emosiynol hyder ynghylch eu dyfodol. Mae ganddynt lefelau uchel o straen dyddiol, yn cynnwys pryderon ynghylch yr ysgol, gwaith, iechyd a chyllid. Mae bechgyn sy'n cael eu hesgeuluso'n tueddu i ymgysylltu'n fwy yn yr ysgol, tra bo merched sy'n cael eu hesgeuluso'n tueddu i ymgysylltu'n llai yn yr ysgol.

Lles emosiynol

O gymharu â grwpiau oedran tebyg yn y gymuned nad oeddent wedi cael eu cam-drin, roedd pobl yn eu harddegau a oedd yn cael eu hesgeuluso yn fwy tebygol o brofi iselder, yn arbennig os oeddent yn iau na 15 oed. Fodd bynnag, nid oeddent yn fwy tebygol o fynegi syniadau hunanladdol.

Roedd pobl yn eu harddegau a oedd yn cael eu hesgeuluso a'u cam-drin yn emosiynol yn arddangos mwy o nodweddion mewnoli fel bod yn fewnblyg, yn bryderus, yn isel, yn flin, gan brofi symptomau straen wedi trawma neu bryderon rhywiol na phobl yn eu harddegau nad oeddent wedi cael eu cam-drin. Ac roeddent deirgwaith yn fwy tebygol o arddangos syniadau hunanladdol na phlant sy'n wynebu'r risg o fathau eraill o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Ni chanfu'r ymchwil unrhyw berthynas rhwng pobl yn eu harddegau a oedd yn cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin yn emosiynol a hunan-barch isel.

Ymddygiad peryglus

Mae'r glasoed yn adeg pan fydd pobl ifanc yn mynd ati fwyfwy i archwilio a bod yn fwy annibynnol. Gall hyn gynnwys rhoi cynnig ar ffyrdd gwahanol o fyw a chymryd rhai risgiau fel rhan o'u datblygiad normal. Fodd bynnag, gall hyn arwain at ystyried gweithredoedd pobl yn eu harddegau fel 'ymddygiad sy'n nodweddiadol o bobl yn eu harddegau' yn hytrach na fel arwydd o esgeuluso neu gam-drin emosiynol. Ceir isod rai o'r prif ganfyddiadau o'r adolygiad yng nghyswllt ymddygiad a allai fod yn beryglus a phobl yn eu harddegau sy'n cael eu hesgeuluso a'u cam-drin yn emosiynol.

Camddefnyddio sylweddau: Gall fod gan rai pobl yn eu harddegau sy'n cael eu hesgeuluso broblemau sy'n gysylltiedig ag alcohol ar ddechrau ac ar ddiwedd eu harddegau. Er ei bod hi'n amlwg y gall pobl yn eu harddegau sy'n cael eu hesgeuluso fod yn debygol iawn o gamddefnyddio sylweddau, yn arbennig y rhai rhwng 14 ac 16 oed, ni wnaeth llawer o'r astudiaethau eu cymharu â phobl eraill yn eu harddegau yn yr un gymuned. Felly, mae'n anodd dweud a fyddent yn llawer iawn mwy tebygol o gamddefnyddio sylweddau. Ni ddarganfu'r astudiaethau unrhyw berthynas rhwng pobl yn eu harddegau a oedd wedi cael eu cam-drin yn emosiynol a'r ffaith eu bod yn camddefnyddio alcohol neu sylweddau.

Ymddygiad rhywiol: Dangosodd un astudiaeth fach risg uwch o feichiogrwydd yn yr arddegau ymhlith pobl yn eu harddegau a oedd yn cael eu hesgeuluso. Ond, fawr iawn o ymchwil sydd ar gael mewn perthynas ag ymddygiad rhywiol a allai fod yn beryglus a'r cysylltiad ag esgeuluso neu gam-drin emosiynol.

Goblygiadau i ymarfer

Gall ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant rhwng 13 a 18 oed sylwi ar rhai o'r nodweddion allweddol a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol. Mae cael help i'r plentyn a'r teulu cyn gynted â phosibl yn fwy tebygol o arwain at ganlyniad da.

Yn aml, ni chaiff esgeuluso a cham-drin emosiynol eu hadnabod ymhlith pobl yn eu harddegau a hyd yn oed yr achosion lle cânt eu hadnabod, mae'n bosibl na fydd gweithwyr proffesiynol yn eu cymryd o ddifrif. Ni wyddom lawer am eu profiadau personol, gan fod prinder ymchwil sy'n nodi teimladau neu brofiadau'r boblogaeth hon. Gall pobl eraill ddehongli'r ymddygiad a arddangosir gan bobl yn eu harddegau sy'n cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin yn emosiynol fel ffordd o fyw ddewisol neu fel ymddygiad negyddol, pan mae, mewn gwirionedd, yn arwydd o esgeuluso neu gam-drin emosiynol. O ganlyniad i hyn, gall eu hymddygiad eu harwain at y system cyfiawnder ieuenctid yn hytrach na'r system amddiffyn plant. Gall dealltwriaeth well o esgeuluso a cham-drin emosiynol ymhlith pobl yn eu harddegau alluogi'r bobl hyn i gael gafael ar help priodol mewn da bryd.

- Mae'n rhaid i'r holl ymarferwyr sy'n dod i gysylltiad â phobl yn eu harddegau sy'n ymddwyn fel uchod ac y mae ganddynt y problemau uchod, ystyried esgeuluso neu gam-drin emosiynol, yn hytrach na mynd i'r afael â'r problemau arwynebol, fel defnyddio alcohol.
- Cofiwch fod pobl yn eu harddegau sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin yn emosiynol, o bosibl yn arbennig o agored i fathau eraill o erledigaeth; felly dylid cymryd camau priodol.
- Gall ystyried profiadau pobl yn eu harddegau mewn modd sensitif helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall eu sefyllfa, a galluogi'r bobl yn eu harddegau i gael gafael ar y cymorth priodol eu hunain.
- Mae angen i adrannau brys ysbytai a darparwyr iechyd meddwl fod yn ymwybodol iawn y gall pobl yn eu harddegau, yn arbennig y rheini sy'n dioddef trais, fod yn cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin yn emosiynol.

Er bod adnabod ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol, nid yw byth yn rhy hwyr i helpu plentyn neu berson yn ei arddegau. Os bydd gennych bryderon am achos posibl o esgeuluso neu gam-drin emosiynol, mae'n bwysig eich bod yn gweithredu cyn gynted â phosibl waeth faint yw oed y person yn ei arddegau.

Os oes gennych chi bryderon gallwch ffonio'r heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol neu'r NSPCC (**0808 800 5000**). A chofiwch y gall plant gysylltu â ChildLine 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos (**0800 1111**; **childline.org.uk**).

Rhestr Termau

Tramgwydd:

Trosedd neu gamwedd, achos o fandaliaeth, neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, sydd fel arfer yn fân ei natur, yn enwedig lle bydd person yn ei arddegau yn gyfrifol, y gellir ei ddwyn gerbron llys ieuenctid mewn perthynas ag ef.

Anhwylder straen wedi trawma (PTSD):

Cyflwr seicolegol lle bydd person fel arfer yn cael ôl-fflachiau, atgofion neu feddyliau ymwthiol poenus, synnwyr ystumiedig o fai, ymddygiad ymosodol, problemau cysgu, ymddygiad hunanddinistriol a lle bydd yn ymddieithrio wrth bobl eraill yn dilyn profiad trawmatig, fel cam-drin emosiynol.

Syniadau hunanladdol:

Meddwl am hunanladdiad, ei ystyried neu gynllunio ar ei gyfer.

Adolygiad cyflym systematig:

Chwilio drwy'r llenyddiaeth berthnasol a gyhoeddwyd yn Saesneg fel y'i nodir mewn nifer gyfyngedig o gronfeydd data y chwiliwyd drwyddynt am gyfnod penodol o amser. Caiff yr holl erthyglau a nodwyd eu hadolygu'n feirniadol wedyn mewn modd safonedig, gan ddau adolygwr hyfforddedig annibynnol, a chaiff y manylion eu cyfuno'n glir.

Diffiniadau o esgeuluso a cham-drin emosiynol ar draws gwledydd Prydain:

Mae canllawiau'r Llywodraeth ar ddiogelu'n amrywio ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a cheir mân wahaniaethau yn y diffiniadau o esgeuluso a cham-drin emosiynol ym mhob awdurdodaeth. Am y diffiniad perthnasol i'ch gwlad chi, dylech ddarllen y canllawiau ar-lein ar gyfer eich awdurdodaeth chi.

Mae'r diffiniadau'n debyg ac yn cynnwys elfennau cyffredin (gweler isod):

Esgeuluso yw peidio'n barhaus â bodloni anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, ac mae'n debygol o amharu'n ddifrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Dyma enghreifftiau o esgeuluso: peidio darparu bwyd, dillad a lloches digonol; peidio amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol ac emosiynol; peidio sicrhau goruchwyliaeth ddigonol; peidio sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol; diystyru neu beidio ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.

Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus, gan achosi effeithiau andwyol a difrifol ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall gynnwys: cyfleu i blant eu bod yn ddiwerth neu'n annigonol, nad oes neb yn eu caru, neu mai dim ond am eu bod yn bodloni anghenion rhywun arall y maent o werth; peidio rhoi cyfleon i blant fynegi barn; gwneud hwyl am ben yr hyn y maen nhw'n ei ddweud neu'r modd y maen nhw'n cyfathrebu; gosod disgwyliadau ar blant sy'n amhriodol o safbwynt eu hoed neu eu datblygiad; rhyngweithio y tu hwnt i gyrhaeddiad datblygiadol plentyn; gor-warchod a chyfyngu ar gyfleon i archwilio a dysgu, neu atal y plentyn rhag cymryd rhan mewn sefyllfaoedd cymdeithasol cyffredin; gweld neu glywed cam-drin un arall; bwlio difrifol (yn cynnwys bwlio ar y we), yn peri i blant deimlo'n ofnus neu mewn perygl; ecsbloetio neu lygru plant.

Mae rhyw radd o gam-drin emosiynol i'w chael ym mhob math o gamdriniaeth, ond gall ddigwydd ar ei ben ei hun hefyd.

Rhagor o gymorth gan yr NSPCC

Os ydych chi'n poeni am blentyn, mae'r NSPCC yma i helpu 24 awr y dydd, saithniwrnod yr wythnos, yn rhad ac am ddim.

Ffôn 0808 800 5000
E-bost help@nspcc.org.uk
Neges destun 88858 (Anfonwch neges at 07786 200001 yn Ynysoedd y Sianel, codir cyfraddau safonol)
Neu ewch i nspcc.org.uk/help

Gwasanaeth gwybodaeth NSPCC

Llyfrgell yr NSPCC yw'r casgliad mwyaf cynhwysfawr o adnoddau arbenigol yn ymwneud ag amddiffyn plant yn y DU. Mae'n cynnwys dros 40,000 o gofnodion a gallwch gael mynediad ato yn **nspcc.org.uk/research**

Gallwch hefyd danysgrifio i CASPAR, sef gwasanaeth newyddion sy'n eich cyfeirio at y polisiau, yr ymarfer a'r ymchwil diweddaraf ym maes amddiffyn plant.

Cofrestrwch yn nspcc.org.uk/research

I lwytho'r daflen hon oddi ar y we am ddim, neu i gael copiau caled ohoni, ewch i **nspcc.org.uk/core-info** i gael manylion prisiau.

Roedd y wybodaeth yn y daflen hon yn gyfredol ym mis Awst 2014.
I gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad hwn ac am adolygiadau systematig eraill y prosiect, ewch i wefan Core info: **core-info.cardiff.ac.uk**

Mae hwn yn brosiect ar y cyd rhwng Rhaglen Ymchwil y Blynyddoedd Cynradd, Sefydliad Gofal Sylfaenol ac Iechyd y Cyhoedd Cochrane, Ysgol Feddygol, Prifysgol Caerdydd a'r NSPCC.

Gallwch gael rhagor o fanylion am yr adolygiad hwn drwy sganio'r cod post isod.

NSPCC
CYMRU | WALES

Ffotograffiaeth gan Tom Hull, gan ddefnyddio modelau. © Hawlfraint NSPCC a Phrifysgol Caerdydd 2014.
Rhifau elusen gofrestredig NSPCC 216401 a SC037717. J20141323. Cod Stores: NS2498

CORE-INFO:

Neglect or emotional abuse in teenagers aged 13-18

NSPCC
CYMRU | WALES

CORE INFO
Cardiff Child Protection Systematic Reviews

Introduction

This leaflet summarises the scientific literature that describes what teenagers aged 13-18 years who are experiencing neglect or emotional abuse tell us about themselves.

It focuses on how these teenagers view themselves and their experiences. The literature review did not account for findings observed by others as only self-reported features were taken into account. For all of the teenagers in the studies that were reviewed, neglect and/or emotional abuse were confirmed by the statutory agencies; many were in out-of-home care at the time of the studies. For many of the teenagers, although they were being neglected or emotionally abused at the time of the studies, this may have also been going on throughout their younger years. The impact of this earlier childhood neglect and abuse is outside the scope of this summary.

This leaflet will be of particular interest to: child health practitioners; education staff, including teachers and education welfare officers; children's social care services; police and youth offending services; primary and secondary healthcare services.

Why we are doing this work

Emotional abuse is an extremely damaging form of abuse, which may occur in isolation, or may coexist with other forms of abuse or neglect. Emotional neglect is also recognised and many research studies combine emotional abuse and emotional neglect together (under the term 'psychological maltreatment'). This leaflet addresses children who are experiencing any form of neglect (physical, emotional, educational, medical etc) and/or emotional abuse.[1]

In this leaflet we aim to explore the association between teenage neglect or emotional abuse, and the likelihood that their maltreatment may manifest itself in issues such as suicidal ideation, depression, victimisation, dating violence and delinquency. Many of the behaviours exhibited by emotionally abused or neglected teenagers may be interpreted by others as a lifestyle choice or 'acting out'. A better understanding of teenage neglect and emotional abuse may enable teenagers to access appropriate and timely help.

This leaflet has been compiled following a systematic rapid review of studies published worldwide between 1990-2014. We report here on teenagers' emotions, general wellbeing, and lifestyle.

[1] Details of what constitutes neglect or emotional abuse are given in the glossary at the end of this leaflet.

Key findings

Victimisation

In one study neglected girls reported being the victims of physical assault, but the neglected boys did not. Another study reported that neglected teenagers may be the victims of dating violence.

Emotionally abused boys and girls have also reported being the victims of dating violence.

Perpetrators of violence or delinquency

One study has shown that physically neglected boys are no more likely to be the perpetrators of dating violence than other teenagers. However, one study showed that emotionally abused boys may perpetrate dating violence. One study reported that older neglected boys may exhibit delinquency.

Future expectations

Emotionally neglected teenagers did not express confidence in their future. They have high levels of daily stress, including anxieties relating to school, work, health, and finance. Neglected boys tend to engage more in school, while neglected girls tend to engage less in school.

Emotional wellbeing

Compared with similar age groups in the community who had not been maltreated, neglected teenagers were more likely to experience depression, particularly if they were younger than 15 years old. However, they were not more likely to express suicidal ideation.

Emotionally abused and neglected teenagers did express more internalising features, such as being withdrawn, anxious, depressed, angry, experiencing post-traumatic stress symptoms, or sexual concerns than teenagers who hadn't been maltreated. And they were three times more likely to express suicidal ideation than children at risk of other types of abuse or neglect.

The research found no association between teenagers who were neglected or emotionally abused and low self-esteem.

Risky behaviours

Adolescence is a time of increasing independence and exploration, which can include trying out different lifestyles and engaging in some risk-taking as part of normal development. However, this can lead to teenagers' actions being written off as 'typical teenage behaviour' instead of a sign of emotional abuse or neglect. Below are some of the key findings from the review relating to risky behaviour and emotionally abused and neglected teenagers.

Substance misuse: Some neglected teenagers may exhibit alcohol-related problems in both early and late teens. Although it is clear that neglected teenagers may be highly likely to engage in substance misuse, particularly those aged 14-16 years, many of the studies did not compare them to other teenagers in the same community. Therefore, it is difficult to determine how much more likely they are to engage in substance misuse. The studies did not find any association between teenagers who had been emotionally abused and their reported alcohol or substance misuse.

Sexual behaviour: One small study showed an increased risk of teenage pregnancy amongst neglected teenagers. However, there is little research relating to risky sexual behaviour and the links with neglect or emotional abuse.

Implications for practice

Practitioners working with children aged 13-18 years may observe some of the key features described in the previous section. Getting help for the child and family as early as possible gives the best chance of a good outcome.

Neglect and emotional abuse are often not recognised in teenagers and even where they are they may not be taken seriously by professionals. Not much is known about their personal experiences, as there is a lack of research which identifies the feelings, or experiences of this population. Many of the behaviours exhibited by emotionally abused or neglected teenagers may be interpreted by others as a lifestyle choice or 'acting out' when they may in fact be an indicator of neglect or emotional abuse. Consequently their conduct may lead them to enter the juvenile justice system rather than the child protection system. A better understanding of teenage neglect and emotional abuse may enable teenagers to access appropriate and timely help.

- All practitioners coming into contact with teenagers who exhibit the behaviours and issues above must actively consider neglect or emotional maltreatment, rather than simply addressing the problems they present, such as alcohol use.
- Remember, teenagers who have experienced neglect or emotional abuse may be particularly vulnerable to other forms of victimisation; therefore appropriate action should be taken.
- A sensitive exploration of teenagers' experiences may help professionals understand their situation, and allow the teenagers to access appropriate support themselves.
- Hospital emergency departments and mental health providers need to be particularly aware that teenagers, especially the victims of violence, may be experiencing neglect or emotional maltreatment.

While early recognition and intervention are vital, it is never too late to help a child or teenager. If concerns about possible neglect or emotional abuse arise it is important you take action as soon as possible regardless of the age of the teenager.

If you have a concern you can call the police, social services or the NSPCC (**0808 800 5000**). And remember that children can contact ChildLine 24/7 (**0800 1111**; **childline.org.uk**).

Glossary

Delinquency:

An offence or misdeed, act of vandalism, or antisocial behaviour, usually of a minor nature, especially one committed by a teenager, who may be brought before a juvenile court.

Post-traumatic stress disorder (PTSD):

A psychological condition characterised by flashbacks, distressing intrusive thoughts or memories, distorted sense of blame, estrangement from others, aggression, sleep disturbance and self-destructive behaviour that may follow a traumatic experience, such as emotional abuse.

Suicidal ideation:

Thinking about, considering, or planning for suicide.

Systematic rapid review:

A search of the relevant literature published in the English language as identified through a limited number of databases searched for a defined period of time. All identified articles are then critically reviewed in a standardised manner, by two independent trained reviewers, with details synthesised in an explicit manner.

Definitions of neglect and emotional abuse across the UK:

Government guidance on safeguarding varies across England, Wales, Scotland and Northern Ireland and slightly different definitions of neglect and emotional neglect apply to each jurisdiction. For the definition applying to your country, readers are advised to consult the online guidance for your jurisdiction.

The definitions contain common elements as outlined below:

Neglect is the persistent failure to meet a child's basic physical and/or psychological needs, and is likely to result in the serious impairment of the child's health or development. Examples of neglect include: failing to provide adequate food, clothing and shelter; failing to protect a child from physical and emotional harm or danger; failing to ensure adequate supervision; failing to ensure access to appropriate medical care or treatment; disregard or unresponsiveness to a child's basic emotional needs.

Emotional abuse is the persistent emotional maltreatment of a child, causing severe and adverse effects on the child's emotional development. It may involve conveying to a child that they are worthless or unloved, inadequate, or valued only because they meet the needs of another person; not giving the child opportunities to express their views; making fun of what they say or how they communicate; age or developmentally inappropriate expectations being imposed on children; interactions beyond a child's developmental capability; overprotection and limitation of exploration and learning, or preventing the child participating in normal social interaction; seeing or hearing the ill treatment of another; serious bullying (including cyber bullying), causing children to feel frightened or in danger; the exploitation or corruption of children.

Some degree of emotional abuse is involved in all types of ill treatment, but it may also occur alone.

Further support from the NSPCC

If you are worried about a child, the NSPCC is here to help.
24 hours a day, seven days a week, free of charge.

Phone 0808 800 5000
Email help@nspcc.org.uk
Text 88858 (Text 07786 200001 in Channel Islands, standard call rates apply)
Or visit nspcc.org.uk/help

NSPCC information service

The NSPCC's library is the most comprehensive collection of specialist resources relating to child protection in the UK. It contains over 40,000 records and you can access it online at **nspcc.org.uk/research**

You can also subscribe to CASPAR, a news service that signposts you to the latest policy, practice, and research in child protection.

Sign up at nspcc.org.uk/research

To download this leaflet for free, or for printed copies of this leaflet, please go to **nspcc.org.uk/core-info** for price details.

The information in this leaflet was current at August 2014.
For the most up-to-date information on this review and the project's other systematic reviews visit the Core info website **core-info.cardiff.ac.uk**

This is a collaborative project between the Early Years Research Programme, Cochrane Institute of Primary Care & Public Health, School of Medicine, Cardiff University and the NSPCC.

Further details of this review can be found by scanning the QR code below.

NSPCC
CYMRU | WALES

Photography by Tom Hull. The child is posed by a model. © Copyright NSPCC and Cardiff University, 2014.
Registered charity England and Wales 216401 and Scotland SC037717. J20141323. Stores code: NS2498